



Annwyl Riant / Gwarcheidwad

Newidiadau i olrhain cysylltiadau a hunanyngysu o fis Medi eleni

Gobeithio eich bod chi a'ch plentyn wedi mwynhau gwyliau'r haf.

Wrth i ni ddychwelyd i'r ysgol, mae nifer o drefniadau newydd ar waith ar gyfer yr adeg pan fydd rhywun yn derbyn canlyniad positif i brawf COVID-19. Mae'r newidiadau hyn yn bosibl yn sgil y rhaglen frechu a'r lleihad sylweddol mewn niferoedd sy'n mynd i'r ysbyty ac yn dioddef salwch difrifol oherwydd COVID-19 dros y misoedd diwethaf.

Os yw eich plentyn yn derbyn canlyniad positif i brawf COVID-19, gan ddefnyddio prawf PCR, bydd Profi, Olrhain, Datgelu (TTP) y GIG yn cysylltu â chi gan ddefnyddio'r manylion a ddarparwyr pan archebwyd y prawf PCR. Byddant yn gofyn cwestiynau sydd wedi'u llunio i geisio dod o hyd i gysylltiadau agos eich plentyn, ac am fanylion cysylltu - os gwyddoch y rhain - ar gyfer yr unigolyn/unigolion neu eu rhieni/gwarcheidwaid. Yna bydd TTP yn cysylltu â'r cysylltiadau agos hyn i ddarparu cyfarwyddiadau neu gyngor.

Os yw eich plentyn yn derbyn canlyniad positif i brawf COVID-19 trwy ddefnyddio prawf llif unffordd cyflym LFD, bydd gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) y GIG yn cysylltu â chi gan ddefnyddio'r manylion sy'n cael eu darparu pan fydd y canlyniadau'n cael eu mewngofnodi www.gov.uk/report-covid19-result. Bydd TTP yn gofyn cwestiynau sydd wedi'u llunio i geisio dod o hyd i gysylltiadau agos diweddar eich plentyn, ac am fanylion cysylltu - os gwyddoch y rhain - ar gyfer yr unigolyn/unigolion neu eu rhieni/gwarcheidwaid. Yna bydd TTP yn cysylltu â'r cysylltiadau agos hyn i ddarparu cyfarwyddiadau neu gyngor.

Mae'n hanfodol fod unrhyw unigolyn sy'n cynnal prawf LFD, boed yn rheolaidd neu unwaith yn unig, yn cofnodi pob un canlyniad LFD, boed hwnnw'n bositif, yn negatiff neu'n annilys, er mwyn caniatáu TTP i olrhain cysylltiadau.

Gall unrhyw un o unrhyw oed gynnal profion LFD yn rheolaidd, a byddech yn eich annog i wneud hynny. Argymhellir eich bod yn cael prawf ddwywaith yr wythnos. Mae'r pecynnau ar gael yn rhad ac am ddim o fferyllfeydd a llyfrgelloedd ar hyd a lled Powys, neu drwy archeb ar-lein sy'n cael ei hanfon yn syth i'ch cartref. Ewch i wefan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i weld manylion lle i gasglu pecynnau neu sut i archebu ar-lein pthb.nhs.wales/coronavirus/coronavirus-testing/no-symptoms/

Nid oes gofyn i'r rheiny sydd dan 18 oed neu wedi'u brechu'n llawn i hunanyngysu os darganfyddir eu bod yn gysylltiadau agos. Ond cysylltir â nhw i roi gwybod iddyn nhw eu bod wedi mewn cysylltiad agos â rhywun sydd wedi derbyn canlyniad positif i brawf. Byddant hefyd yn cael cynnig dau brawf PCR

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk



ynghyd â gwybodaeth a chyngor ar sut i leihau risgiau lledu'r feirws ymhellach. Os darganfyddir bod eich plentyn yn gyswllt agos, gall barhau i fynd i'r ysgol oni bai ei fod yn datblygu symptomau neu TTP yn dweud wrtho am beidio â gwneud. Gofynnwn i chi barhau i roi gwybod i ni os yw eich plentyn yn derbyn prawf positif.

Os yw plentyn yn derbyn prawf positif, bydd angen i TTP hefyd gysylltu â'r ysgol i helpu i ddarganfod pwy yw'r cysylltiadau. Cadw nifer y cysylltiadau agos ymhlith eu cyd-ddisgyblion cyn ised â phosibl yw'r nod. Ond os oes patrwm o achosion, mae'n bosib y bydd TTP yn gofyn i ni anfon diweddariad i chi ar y sefyllfa a'ch atgoffa o'r prif gamau, gan gynnwys eich cynghori i wyllo rhag ofn y gallai eich plentyn gael symptomau newydd, a chadw draw oddi wrth gyfeillion neu aelodau o'r teulu sy'n agored i niwed yn y tymor byr.

Rydym yn disgwyl y bydd yna achosion o COVID-19 ar draws eich cymuned dros yr wythnosau nesaf. Cofiwch barhau i fod ar eich gwyliadwriaeth am symptomau. Os ydych yn amheus, archebwch brawf PCR i'ch plentyn yn www.gov.uk/get-coronavirus-test neu drwy ffonio 119.

Dylai unrhyw un â symptomau - peswch newydd parhaus, gwres neu dymheredd uchel, neu golli neu newid synnwyr arogli neu flasau - barhau i hunanynysu hyd nes bod canlyniad y prawf yn hysbys. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau hunanynysu yn www.gov.wales/self-isolation.

Rydym yn ymwybodol o anawsterau'r 18 mis diwethaf a'r aberth y mae pob teulu wedi gorfod gwneud. Diolch am bopeth a wnaethoch i gefnogi eich plentyn a'n hysgol.